## Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1 Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol** a **SKAHDBRBNS1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau Gwallt, Barbro, Harddwch, Ewinedd, Lles a Holistig.** Mae'r safon yma'n ymwneud â rhywun proffesiynol o faes trin gwallt sy'n darparu gwasanaethau lliwio a goleuo. Bydd y gwasanaethau lliwio'n cynnwys defnyddio lliwiau rhannol barhaol, hanner parhaol/ lled barhaol a pharhaol. Yn ogystal â hyn, defnyddio lliwiau a goleuwyr er mwyn creu isoleuadau ac aroleuadau. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfyrio er mwyn gwelliant parhaus. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siwr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, y polisïau, y gweithdrefnau a'r cyfarwyddyd am yr arfer orau. Cynghorir defnyddwyr y safon yma i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio gyda gofynion cymorth cyntaf yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol.

**Y prif ddeilliannau yw:**

1. lliwio'r holl ben
2. lliwio ar gyfer ad-dyfiant
3. aroleuadau ac isoleuadau wedi eu gwau a rhai gloyw

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr gyda'r unigolyn

2.cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, cyfarwyddebau a chanllawiau
3.trafod a darganfod amcanion yr unigolyn a’r canlyniadau a ddymunir, er mwyn cael y wybodaeth ar gyfer y cynllun gwasanaeth lliwio a/neu goleuo, i gynnwys:
3.1 hanes triniaethau
3.2 dewisiadau amgen ar gyfer triniaeth
4.gwneud dadansoddiad o’r gwallt a chroen y pen, i gynnwys:
4.1 **dosbarthiad cyrls y gwallt**
4.2 **nodweddion y gwallt**
4.3 **stad y gwallt**
4.4 cyflwr croen y pen
4.5 canran o wallt gwyn
4.6 hyd yr ad-dyfiant ar wallt sydd wedi ei drin yn rhannol â chemegion
4.7 hyd y gwallt
5.gwneud **profion** er mwyn penderfynu addasrwydd ar gyfer y gwasanaeth lliwio a/neu goleuo, i gynnwys:
5.1 cofnodi a chadw’r canlyniad yn unol â deddfwriaeth data
6.gwerthuso canlyniadau’r ymgynghoriad, amcanion yr unigolyn a’r dadansoddiad o groen y pen ar y cyd
7.trafod gyda’r unigolyn yr effeithiau y gellir eu cyflawni gan ddefnyddio cymhorthion gweledol perthnasol er mwyn darparu’r wybodaeth ar gyfer y detholiad o **gynnyrch** sydd i’w defnyddio, i gynnwys:
7.1 taliadau a pharhad
8.cadarnhau a chytuno gyda’r unigolyn, ei fod wedi deall y gwasanaeth lliwio a/neu goleuo arfaethedig, i gynnwys:
8.1 gwrth weithredoedd
8.2 adweithiau niweidiol
9.sicrhau cydsyniad gwybodus yr unigolyn ar gyfer y gwasanaeth lliwio a/neu goleuo arfaethedig:

**Gwasanaeth lliwio a goleuo**
10.cribo a rhannu’r gwallt a gwarchod y croen o amgylch yn unol â’r **protocol gwasanaeth lliwio a/neu goleuo**
11.dewis a pharatoi’r cynnyrch, offer, deunyddiau a chyfarpar yn unol â’r protocol gwasanaeth lliwio a/neu goleuo
12.dodi’r cynnyrch a defnyddio **technegau lliwio a/neu oleuo** yn unol â’r protocol lliwio a/neu goleuo, i gynnwys:
12.1 gwau’r gwallt, gan ddodi rhannau gloywi a diogelu’r rhannau gloywi ar ôl dodi’r cynnyrch
13.dodi a monitro amser y broses yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr
14.gwneud prawf datblygiad er mwyn cadarnhau’r amseroedd prosesu i gynnwys asesiad o’r canlynol:
14.1 cyflwr y gwallt

14.2 cyflwr y goleuwr
14.3 sensitifrwydd croen y pen
15.tynnu’r cynnyrch o’r gwallt a chroen y pen yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr
16.cwblhau’r gwasanaeth yn unol â’r protocol lliwio a/neu goleuo
17.cadarnhau gyda’r unigolyn ei fod yn fodlon gyda’r canlyniad terfynol
18.monitro iechyd a lles yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth lliwio a/neu goleuo
19.gweithredu yn y modd cywir os bydd adwaith niweidiol
20.cwblhau cofnodion gwasanaeth yr unigolyn a’u cadw yn unol â deddfwriaeth data
21.defnyddio ymarfer adfyfyriol i werthuso’r gwasanaeth a chymryd camau priodol
22.rhoi **cyfarwyddiadau** a chyngor i’r unigolyn, cyn ac ar ôl y gwasanaeth gwallt
23.cofnodi canlyniad y gwasanaeth lliwio a/neu goleuo a’r gwerthusiad ohono

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich swyddogaeth a’ch cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau lliwio a/neu goleuo a phwysigrwydd gweithio o fewn eich gallu
2.pam ei bod yn rhaid i chi gydymffurfio gydag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol, i gynnwys:
2.1 y cyfrifoldebau drosoch chi eich hunain a’ch adeiladau o dan reoliadau trwyddedu yr awdurdod lleol
3.pwysigrwydd ymwneud â, a dogfennu datblygiad proffesiynol parhaus, i gynnwys, polisïau gwybodaeth wedi eu diweddaru, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer arfer gorau
4.yr **anatomeg a’r ffisioleg** sy’n berthnasol i’r safon yma
5.y gwrtharwyddion cymharol a llwyr sy’n berthnasol i’r gwasanaeth gwallt, i gynnwys:
5.1 y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis meddygol a chyfeirio
6.pwysigrwydd adnabod nodweddion afreolaidd ar y croen a niwed i groen y pen, a’u cyfeirio at weithiwr proffesiynol perthnasol ym maes gofal iechyd
7.y mathau o gynnyrch a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau lliwio a/neu goleuo a’u cyfyngiadau, i gynnwys addasiadau sydd eu hangen, mewn perthynas â’r canlynol:
7.1 dosbarthiad cyrls y gwallt
7.2 cyflwr y gwallt
7.3 stad y gwallt
7.4 cyflwr croen y pen
7.5 gwallt gwrthsafol
7.6 gwallt wedi ei drin yn gemegol
8.yr effeithiau ffisiolegol y caiff cynnrych lliwio a goleuo ar strwythur y gwallt
9.sut i adnabod gwallt sydd wedi ei or-brosesu a’r risgiau cysylltiedig a pha gamau i’w cymryd
10.sut i adnabod trichorrhexis nodosa, y risgiau cysylltiedig a pha gamau i’w cymryd
11.pwysigrwydd cadw at gyfarwyddiadau’r gwneuthurwr er mwyn rhwystro anghydnawsedd o ran cynnyrch a risgiau i iechyd
12.egwyddorion ar gyfer dethol lliwiau, gan gynnwys y siart lliw rhyngwladol
13.sut mae lliwiad naturiol ac isliwiau yn effeithio ar y dewis o liw’r cynnyrch, i gynnwys y dewis o’r canlynol:
13.1 goleuo’r gwallt ymlaen llaw
13.2 dodi cyn-liwiad
13.3 dodi arlliw gwrthweithiol
14.y mathau o gryfderau perocsid a ddefnyddir mewn gwasanaethau lliwio a goleuo, i gynnwys:
14.1 pryd a pham y defnyddir cryfderau perocsid
15.pam bod mandylledd gwael o’r gwallt yn dylanwadu ar y dewisiadau o gynnyrch a gwasanaeth
16.yr effeithiau y caiff tymheredd ar ddodi cynnyrch llwiio a goleuo ac ar eu datblygiad
17.pwysigrwydd gwneud dadansoddiad o’r gwallt a chroen y pen a sut mae’n effeithio ar y dewis o gynnyrch a’r cyfarpar a ddefnyddir
18.sut y gall patrymau tŵf y gwallt benderfynu safle a lleoliad aroleuadau ac isoleuadau
19.pwysigrwydd gwneud profion a sut y gall canlyniadau profion effeithio ar y gwasanaeth lliwio a goleuo

20.yr offer, deunyddiau a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau lliwio a goleuo ar gyfer pob dosbarthiad a mathau o wallt a chyflyrau
21.y risgiau sy’n gysylltiedig â lliwio a goleuo’r gwallt
22.pwysigrwydd amddiffyn croen a chroen pen yr unigolyn rhag cynnyrch lliwio a goleuo
23.pwysigrwydd cadw at gyfarwyddiadau’r gwneuthurwr ar gyfer y defnydd diogel o gynnyrch lliwio a goleuo a’r defnydd diogel ohonynt, i gynnwys:
23.1 pwysigrwydd egluro teimlad corfforol ar groen y pen
24.pam y dylech chi gribo a rhannu’r gwallt cyn y cynnyrch lliwio a goleuo
25.sut i gyflawni gwasanaeth lliwio a goleuo, i gynnwys:
25.1 gwau’r gwallt
25.2 dodi rhannau gloywi a’u tynnu i ffwrdd
25.3 dodi cynnyrch lliwio a goleuo i’r gwallt mewn modd diogel er mwyn osgoi bod yn agored i gemegolion i’r croen a chroen y pen
25.4 amseroedd y gwasanaeth yn unol â’ch polisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol
26.pwysigrwydd gwneud prawf datblygiad yn ystod y gwasanaeth i’r gwallt yn unol â chyfrawyddiadau’r gwneuthurwr
27.y rhesymau pam bod angen i chi fynd i’r afael â phroblemau all yn aml godi pan yn lliwio a goleuo’r gwallt, i gynnwys:
27.1 ffyrdd y gellir eu cywiro
28.pwysigrwydd ymgynghori gyda’r unigolyn drwy gydol y gwasanaeth lliwio a goleuo
29.yr adweithiau niweidiol a gysylltir â’r gwasanaethau lliwio a goleuo a sut i ymateb iddynt
30.y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth
31.y gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau i’r gwallt i blant dan oed ac oedolion bregus
32.pam ei bod hi'n bwysig trafod a sefydlu amcanion yr unigolyn, ei bryderon, disgwyliadau, y canlyniadau y mae'n eu dymuno a chytuno ar y cynllun gwasanaeth lliwio a goleuo
33.y strwythurau taliadau a’r dewisiadau ar gyfer triniaeth
34.y gofynion deddfwriaethol a digollediad er mwyn sicrhau cydsyniad gwybodus wedi'i lofnodi ar gyfer y gwasanaeth
35.y rhesymau dros gymryd delweddau gweledol gyda chydsyniad o fan triniaeth yr unigolyn, a'u cadw yn unol â gofynion y gwasanaeth, deddfwriaethol, yswiriant a chyfundrefnol
36.pwysigrwydd cadw at y protocol gwasanaeth lliwio a goleuo
37.pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth
38.canlyniadau disgwyliedig gwasanaeth lliwio a goleuo
39.diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a’r modd y mae’n darparu gwybodaeth ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol
40.y cyfarwyddiadau a’r cyngor, cyn ac ar ôl y gwasanaeth lliwio a goleuo

## Cwmpas/Ystod